

ATODIAD 2 – RHESTR WIRIO

Rhoi Grantiau neu Gymorth Ariannol yng Ngrŵp Colegau NPTC

Wrth reoli proses grant neu gymorth ariannol ar ran Grŵp Colegau NPTC, cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau bod y Coleg yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

<p>Mae'r holl wybodaeth allanol am y grant neu gymorth ariannol ar gael yn Gymraeg ac fe gaiff ei chyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, gan gynnwys unrhyw ddogfennau arweiniad, fframweithiau asesu a thelerau ac amodau.</p>	
<p>Mae'r datganiad i'r wasg/gwahoddiad/ffurflenni cais yn cynnwys y datganiad canlynol -</p> <p>Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg neu yn ddwyieithog ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.</p> <p>You may submit an application in Welsh or bilingually and any application received in Welsh or bilingually will not be treated less favourably than an application made in English.</p>	
<p>Mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys yn y ffurflen gais Saesneg (lle mae wedi'i gwahanu oddi wrth y fersiwn Gymraeg).</p> <p>Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg This document is available in Welsh</p>	
<p>Lle mae cyfeiriad e-bost neu rif ffôn yn cael ei ddefnyddio i ofyn i bobl gysylltu, mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys yn y poster, e-bost neu hysbysiad cyhoeddus.</p> <p>Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg You are welcome to communicate with us in Welsh.</p>	
<p>Mae'r ffurflen gais yn cynnwys y cwestiwn gorfodol a ganlyn i ganiatáu i'r ymgeisydd ystyried effaith y fenter ar yr iaith Gymraeg:</p> <p>Rhowch wybod i ni:</p> <ul style="list-style-type: none">•Sut byddai'r grant neu'r cymorth ariannol yn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'u Cymraeg neu i hybu'r iaith (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai dyfarnu'r grant neu gymorth ariannol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?•Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol? <p>Please let us know:</p>	

<ul style="list-style-type: none"> • How will the grant or financial assistance impact on opportunities for people to use and promote the Welsh language (Positive or Negative) and if awarding the grant or financial assistance treats the Welsh language less favourably than the English language in any way? • How could positive impacts be increased, or negative impacts be decreased? 	
<p>Yn ystod y broses asesu rydych wedi ystyried y canlynol –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut rydych chi'n teimlo y gallai'r grant effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol) ac os yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd? • Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol? 	
<p>Lle rydych wedi trefnu cyfarfod i ofyn cwestiynau pellach mewn perthynas â'r cais rydych wedi cynnwys y datganiad canlynol (waeth p'un a yw'r cyfarfod ar-lein neu wyneb yn wyneb):</p> <p>Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod dim ond i chi roi gwybod i ni erbyn xx/xx/xx.</p> <p>You are welcome to use Welsh at the meeting, just let us know by xx/xx/xx should you wish to do so.</p>	
<p>Mae Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd Cymraeg wedi'u trefnu mewn ymateb i ymgeisydd sydd wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod*.</p> <p>Gyrrwch e-bost i translation.request@nptcgroup.ac.uk i drefnu'r gwasanaeth hwn.</p>	
<p>Rydych wedi ystyried gweithredu amod i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg.</p>	
<p>Rydych yn parchu dewis iaith yr ymgeisydd yn ystod y broses.</p>	

*Nid oes angen gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb / cyfieithu ar y pryd lle nad oes ymateb wedi ei dderbyn i'r cynnig i ddarparu hyn. Gallwch hefyd drefnu i'r cyfarfod gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg gyda swyddogion o'ch adran sy'n siarad Cymraeg.